

Cynnwys

Rhaglen	2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
4 - Targed Arbedion Ysgolion	11
5 - Grantiau Addysg Llywodraeth Cymru	14
Atodiad 1 - Llythyr Llywodraeth Cymru 3/10/14	16
Atodiad 2 Llythyr Pennaeth Addysg - Medi 2014	18
Atodiad 3 - Llythyr Llywodraeth Cymru 14/8/14	19
Atodiad 4	21
Atodiad 5	22
6 - Cryfhau darpariaeth cysylltedd TG rhwydwaith ysgolion Gwynedd	23
7 - Strategaeth Cynhwysiad Ysgolion Uwchradd	25
Atodiad 1 - 1 - i Llythyr datganoli strategaeth cynhwysiad	27
Atodiad 1 - 2 Cynhwysiad - ymgynghori Mehefin 2014	28
Atodiad 2 - Cynhwysiad - cymharu y ddau gynnig	29
8 - Balansau Ysgolion - Ystadegau Cenedlaethol	30
Atodiad 1 - Balansau Ysgolion	31



Cyfarfod / Meeting

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

SCHOOLS FINANCE FORUM

Dyddiad ac Amser / Date and Time

1.30 p.m. DYDD LLUN, 3 TACHWEDD 2014

1.30 p.m. MONDAY, 3 NOVEMBER 2014

Lleoliad / Location

Ystafell Gyfarfod / Assembly Room

Hen Eglwys Santes Fair / Former St Mary's Church

Heol yr Eglwys / Church Street

TREMADOG

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

01341 424 301

Dosbarthwyd: 28.10.14

AELODAETH / MEMBERSHIP

AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS

Y Cyngorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)

Y Cyngorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS

Mr Iwan Trefor Jones

PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen

Mr Gareth T M Jones - Ysgol Botwnnog

Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail

Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal

Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli

Mrs Sian Elen Pleming - Ysgol Llanaelhaearn

Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau

Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybryn

Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS

Arfon

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen - Arennig, 14 Erw Las, Bethesda, Gwyedd

Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid – 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid, Bangor, Gwynedd.

Meirionnydd

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn – Tanrallt , Llan Ffestiniog , Blaenau Ffestiniog

Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr – Bryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2HW

Dwyfor

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog - Rhos Newydd, Mynytho, Pwllheli, LL53 7RW

Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd - Madryn , 30 Dolwar , Y Ffor

ESGOBAETH / DIOCESE

Parchedig/Rev Robert Townsend

YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS

Mrs Eleri Williams – Ysgol y Faenol

YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

Sylwedyddion / Observers :

Mr Dilwyn Williams, Prif Weithredwr/Chief Executive

Mr Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro / Temporary Head of Education Service

Mr Hefin Owen , Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate

Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd

Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd 18 Mehefin 2014.

(Copi yn amgaaedig – papur **gwyn**)
3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

Eitem 8 (c) - defnydd balansau dros y trothwy (ar lafar) OO

Eitem 12 - CLG diweddariad (ar lafar) OO
4. **Targed Arbedion Ysgolion** OO

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg Dros Dro ar yr uchod.

(Copi'n amgaaedig – papur **gwyrdd**)
5. **Grantiau Addysg Llywodraeth Cymru** HO

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg Dros Dro ar yr uchod.

(Copi'n amgaaedig – papur **hufen**)
6. **Cryfhau Darpariaeth Cysylltedd TG** HY

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid.

(Copi'n amgaaedig – papur **pinc**)
7. **Strategaeth Cynhwysiad Ysgolion Uwchradd** OO

I ystyried adroddiad y Pennaeth Addysg Dros Dro ar ganlyniad yr ymgynghori.

(Copi'n amgaaedig – papur **glas**)
8. **Balansau Ysgolion : Ystadegau Cenedlaethol** HO

I ystyried adroddiad y Pennaeth Addysg Dro Dro ar yr uchod.

(Copi'n amgaaedig – papur **melyn**)
9. **Unrhyw Fater Arall**
10. **Dyddiad Cyfarfod nesaf**

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys
Santes Fair, Tremadog,
ar 18 Mehefin 2014 o 9.15 a.m. hyd 10.50 a.m.

Yn Bresennol:

Aelodau Cabinet: Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

Penaethiaid Ysgolion : Mr Vaughan Williams (Ysgol Syr Hugh Owen), Mr Huw G Evans (Pennaeth Ysgol Dyffryn Nantlle), Mrs Sianelen Fleming (Ysgol Llanaelhaearn), Mrs Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn).

Undebau Athrawon: Mr David Healey (Ysgol Friars)

Llywodraethwyr: Mr Godfrey Northam (Sector Cynradd)

Swyddogion: Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg)
Mr Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
Mr Owen Owens (Uwch Reolwr Addysg)
Mr Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Ymddiheuriadau: Mr Harry Thomas (Prif Weithredwr), Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Mrs Iona Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys), Mrs Menna Wynn Pugh (Ysgol Penybryn Tywyn), Mr Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Mr Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Mr Neil Foden (Undebau Athrawon), Mr Walter Williams (Llywodraethwr Sector Uwchradd Ardal Arfon), Mr Gwynne Pierce (Llywodraethwr Sector Cynradd Ardal Meirionnydd), Canon Robert Townsend (Yr Esgobaeth).

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2014/15.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg, yn Is-gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2014/15

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Estynnwyd croeso i'r canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion:

- Y Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg, yn olynu'r Cyng. Siân Gwenllian.
- Mr Huw G. Evans, Pennaeth Ysgol Dyffryn Nantlle

- Mr David Healey ar ran Undebau'r Athrawon a oedd yn dirprwyo i Mr Neil Foden
- Mr Dafydd Edwards a oedd yn dirprwyo i Mr Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor

(b) Dymunwyd yn dda i'r canlynol a oedd yn mynychu eu cyfarfod olaf o'r Fforwm:

- Mr Vaughan Williams, Pennaeth Ysgol Syr Hugh Owen, a oedd wedi derbyn swydd gydag ESTYN
- Mr Dewi Jones, Pennaeth Addysg, a fyddai'n ymddeol diwedd Awst eleni

Diolchwyd i'r ddau ohonynt am eu hymroddiad a'u cyfraniad i waith y Fforwm dros y blynyddoedd diwethaf.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2014.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Eitem 3 (b) - Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg bod y Grŵp Tasg wedi trafod dau o'r meysydd penodol a'r bwriad ydoedd trafod y gweddill maes o law.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(b) Eitem 4 – Strategaeth Ariannol 2015/16 – 2017/18

Adroddodd y Pennaeth Cyllid nad oedd unrhyw wybodaeth gadarn ychwanegol i'w adrodd ar hyn o bryd ynglŷn â'r uchod. Adroddodd fod datganiadau answyddogol Gweinidogion a gweision sifil yn awgrymu bydd angen darganfod o leiaf arbedion o £34m dros y 4 blynedd nesaf, gyda'r Awdurdod yn gorfod canfod arbedion effeithlonrwydd ymhob gwasanaeth.

Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg y golygai hyn na ellir osgoi edrych ar y gyllideb ddatganoledig ac y byddai'n ofynnol i edrych ar y ffordd orau i wneud toriadau ar y fformiwla.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod

(c) Eitem 5 – Balansau Ysgolion – hyfforddiant cyllidol i ysgolion

Sicrhodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddir yn trefnu hyfforddiant cyllidol i ysgolion yn ystod tymor yr Hydref.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ch) Eitem 5 (d) - Cyllido Addysg ôl-16

Atgoffodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod yr Awdurdod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyfleu anfodlonrwydd i'r toriadau o gyllido addysg ôl-

16 ond yn anffodus ni dderbyniwyd ymateb cadarnhaol. Cyflwynir gwybodaeth bellach i'r Fforwm yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ar ddyraniad 2015/16.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

6. CYFRIFON TERFYNOL 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn cyflwyno gwybodaeth am Gyfrifon Terfynol Ysgolion 2013/14 i'r Fforwm.

Tywysodd y Rheolwr Cyllid Datblygu yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Grynoded o falansau ysgolion ar 31.03.14
- Bod balansau ysgolion wedi cynyddu £23,450 yn ystod 2013/14 i £3,776,846
- Bod gan 7 ysgol ddiffyg ar ddiwedd 2013/14 (12 ar ddiwedd 2012/13) amrediad o rhwng £2,231 a £90,156
- Gwelwyd lleihad sylweddol ym malansau Ysgolion Uwchradd a chynnydd ym malansau Ysgolion Cynradd yn 2013/14

Nodwyd bod balansau ysgolion Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru ac o'r herwydd dylid rhoi ystyriaeth i falansau ysgolion unigol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

7. ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD O SEFYDLU TROTHWY O 5% NEU £50,000 / £100,000

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg ynglyn ag adolygiad o'r cynllun cyfarwyddo balansau ysgolion.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod llythyr o ymgynghoriad ynglyn â'r penderfyniad i weithredu'r hawl i gyfarwyddo ysgolion sut i wario elfen o'u balansau mewn sefyllfaoedd ble mae balansau dros 5% neu £50,000 (cynradd) / £100,000 (Uwchradd ac Arbennig) pa un bynnag yw'r lleiaf, wedi ei anfon i ysgolion. Derbyniwyd ymateb gan ysgolion fel a ganlyn:

Sector	Cefnogi	Gwrthwynebu	Heb Ymateb
Cynradd	26	7	64
Uwchradd	7	2	5
Arbennig			2

Nodwyd y byddai'n ofynnol i 100% o'r ysgolion gefnogi'r bwriad uchod er mwyn ei weithredu. Oherwydd geiriad y cwestiwn ofynwyd, casglwyd bod nifer o ysgolion heb ymateb, a'u bod nhw hefyd yn gwrthwynebu.

Datganwyd siom gan gynrychiolydd Undebau'r Athrawon, gan fod yr hicyn £50,000 yn swm sylweddol, yn enwedig gan fo ysgolion Gwynedd yn fychan o ran niferoedd disgyblion.

Penderfynwyd: Derbyn nad oedd yr holl ysgolion yn barod i gymeradwyo cynllun diwygiedig ar gyfer ymrwymo i sefydlu trothwy o 5% neu £50,000 / £100,000 pa un bynnag yw'r lleiaf, ac ni ellir gorfodi hyn ar sail mwyafrif.

8. CYNLLUN YMDRIN Â BALANSAU YSGOLION

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg ynglyn â diwygio'r cynllun cyfarwyddo balansau a'r drefn weithredu bresennol.

(b) Esboniodd yr Uwch Reolwr Addysg bod y drefn bresennol yn cynnwys trothwy o 8% neu £50,000 (cynradd) neu £100,000 (uwchradd ac arbennig), pa un bynnag yw'r mwyaf, cyn y gall yr Awdurdod gyfarwyddo corff llywodraethu ar sut i wario elfen o'u balansau gyda'r drefn weithredu bresennol yn cyfrif gwarged balansau ar ôl sefydlu cyllideb.

(c) Tynnwyd sylw at rannau priodol o'r Ddeddfwriaeth ac eglurwyd y cynllun a'r drefn ddiwygiedig ganlynol:

- **Balansau dros 5% :** Yn unol â Chynllun Ariannu Ysgolion (cymal 4.2) mae gofyn statudol i ysgolion sydd â balansau dros 5% o'u dyraniad adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'r balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol.

Amserlen – holiadur i'w ddychwelyd erbyn 4 Gorffennaf 2014

- **Balansau dros drothwy £50,000/£100,000:** Adnabod balansau Ysgolion ar y 1 Ebrill, gan ychwanegu cyfrifiad o'r balansau sydd dros y trothwy priodol (atodiad 2). Gofynnir i'r ysgolion perthnasol adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'u balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol.

Amserlen – holiadur i'w ddychwelyd erbyn 4 Gorffennaf 2014

- **Cyfarwyddo Corff Llywodraethu**

Yn dilyn adolygiad o ymateb ysgolion perthnasol i'r ddau gais uchod, os yn briodol, bydd y Pennaeth Addysg yn cyfarwyddo'r Corff Llywodraethu sydd â balansau uwchben y trothwy £50,000/£100,000 sut i wario elfen o'u balansau a gofyn am gadarnhad y byddant yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd. Bydd hefyd, yn cysylltu gydag ysgolion sydd â balansau dros 5%, ond o dan y trothwy, os ydi'r holiadur ar ddefnydd o falansau yn aneglur ac/neu fod y rhesymau a gynigir yn annerbyniol neu'n amwys.

Amserlen – Medi 2014

- **Talu gwarged i'r Awdurdod**

Adolygu os yw ysgol wedi gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd, ac os nad ydynt, hysbysu ysgol o'r swm ariannol a drosglwyddir yn syth o gyllideb yr ysgol i'r gyllideb ysgolion.

Amserlen – Tachwedd 2014

(ch) Ychwanegodd y Pennaeth Addysg bod cyfanswm balansau ysgolion Gwynedd dros £50,000 neu £100,000 yn £629,493 ar 31 Mawrth 2014.

(d) Mynegodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod niferoedd o ysgolion bach ym Meirionnydd gyda balansau uchel iawn ac o ystyried trefniadaeth ysgolion i'r dyfodol dylid sicrhau bod yr ysgolion hyn yn gwario'r arian ar addysg y plant.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cynllun a'r drefn weithredu amlinellir yn (c) uchod.

9. ADNODDAU ARIANNOL AR GAEL I YSGOLION 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg gan gynnwys taenlen o brif ffynonellau adnoddau ariannol ysgolion ar gyfer 2014/15 lle mae'r Corff Llywodraethol yn rheoli defnydd o'r arian, gan dderbyn bod amodau ynghlwm i rai.

Gwnaed sylw nad oedd y daenlen yn gyflawn a bo'r dudalen gyntaf ar goll.

Tynnodd y Rheolwr Cyllid Datblygu sylw at y ffaith bod yr Awdurdod yn dyrannu £72,189,309 i'r ysgolion (yn cynnwys £410,859 ar sail unwaith ac am byth i'r ysgolion uwchradd). Yn ogystal, ychwanegir £9,400,100 trwy wahanol grantiau penodol ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a olygai bod ysgolion yn derbyn cyfanswm gwerth £81,589,409 o adnoddau ariannol yn 2014/15.

Nodwyd bod y daenlen uchod yn hynod ddefnyddiol i Benaethiaid a Llywodraethwyr a gofynnwyd a fyddai modd ychwanegu colofn ychwanegol yn nodi "polisiau'r" fformiwla megis rhwyd diogelu.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid Datblygu ddiwygio'r daenlen o brif ffynonellau ariannol ysgolion fel bo modd ei chylchredeg i ysgolion.

10. STRATEGAETH CYNHWYSIAD YSGOLION UWCHRADD

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg bod proses o ymgynghori yn mynd rhagddo ynglyn â newid dull ariannu'r strategaeth cynhwysiad ac y byddir yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r ymateb i gyfarfod nesaf y Fforwm.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

11. CYFNOD SYLFAEN YSGOLION CYNRADD

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod y grant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei dderbyn ac fe fyddir yn llythyru ag ysgolion yn y dyddiau nesaf ar sut i dyrannu'r grant. Bydd y Grŵp Adolygu Fformiwla Cynradd, ynghyd â Mr John Roberts, Arbenigwr allanol, yn adolygu'r drefn o dderbyn y grant drwy'r fformiwla, ac fe adroddir yn ôl ar gasgliadau'r trafodaethau i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

12. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg bod ffurflenni wedi eu hanfon i ysgolion gyda chais iddynt nodi pa gytundebau lefel gwasanaeth y dymunent ymrwymo iddynt.

Disgwylir ymatebion erbyn Gorffennaf ac fe adroddir ymhellach ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

13. UNRHYW FATER ARALL

Cyllideb Integreiddio

- (a) Derbyniwyd eglurhad gan y Pennaeth Addysg, mewn ymateb i ymholiad gan Bennaeth ynglyn â datganoli arian ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol, bod y gyllideb integreiddio yn £5.8m a phwysleisiwyd nad oedd toriad i'r gyllideb ond yn hytrach dyrannwyd £300,000 yn llai er mwyn ei glustnodi ar gyfer unrhyw orwariant pe byddai ei angen.
- (b) Gwnaed cais gan Bennaeth i wybod faint o gyllid fydd ar gael fel bo modd i ysgolion gyllido'n effeithiol.
- (c) Sicraodd yr Aelod Cabinet Cyllid y bydd ymgynghori manwl ynglyn ag unrhyw gynllun arbedion effeithlonrwydd fel bo modd paratoi'n effeithiol ac y bydd yn gyfnod anodd iawn o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

14. CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu bennu dyddiad ym mis Tachwedd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r swyddogion perthnasol.

CADEIRYDD

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	3 Tachwedd 2014
TEITL	Targed Arbedion Ysgolion
PWRPAS	Yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd, sefydlu Gweithgor i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu targed arbedion ysgolion o £4.3m dros y tair blynedd nesaf
ARGYMHELLIAD	Sefydlu Gweithgor
AWDUR	Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cynghorydd Gareth Thomas

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2014 fel a ganlyn:

- Gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw.
- Gofyn i'r Gweithgor gyflwyno'r gwaith hwnnw erbyn diwedd Ionawr 2015
- Dylid gwahodd Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i'r gweithgor a sefydlir fel sylwebyddion.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol dros y penderfyniad:

Mae'r Cyngor wedi cytuno gyda bwriad y Cabinet i gynllunio ar gyfer darganfod arbedion gwerth £34m ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf er mwyn ymateb i'r hinsawdd ariannol yr ydym yn debygol o'i wynebu.

O ystyried bod holl wasanaethau eraill y Cyngor yn wynebu sefyllfa heriol dros ben gydag elfennau ohonynt dan fygythiad sylweddol, ac o ystyried bod y gyllideb ysgolion yn cynrychioli tua 35% o gyllideb holl wasanaethau'r Cyngor, os na fyddwn yn gofyn i'r ysgolion chwarae eu rhan yn yr her sydd o'n blaenau, fe allai'r ardrawiad ar wasanaethau eraill hanfodol y Cyngor fod yn annioddefol.

Er mwyn medru cyflawni'r strategaeth wreiddiol yma fe ragdybiwyd y dylid anelu i gyflawni tua £4.3m o arbediad o'r gyllideb ysgolion (sy'n cyfateb i tua 6% dros y 3 blynedd i ddod) ond mae'n rhaid dod i gasgliad nawr ynglŷn â'r targed sydd angen ei osod, fel bod modd i'r gwasanaeth ddechrau cynllunio.

Byddai gosod targed o £4.3m neu 6% yn parhau i roi gwarchodaeth i ysgolion o'i gymharu gyda gwasanaethau eraill. Gellir ei gymharu gyda'r targed arbedion effeithlonrwydd a osodwyd ar gyfer gwasanaethau eraill allweddol fel a ganlyn –

- Gwasanaeth Plant – 16.8%
- Gwasanaeth Addysg Canolog – 16.4%
- Gwasanaeth Henoed – 14.4%

Rhaid cofio hefyd y gallai'r effaith ar y gwasanaethau yma fod yn waeth gan y bydd angen pennu pa elfennau fyddai'n cael eu torri ac fe allasai elfen ddisgyn yn y meysydd yma.

Dylid ystyried cyd-destun y sefyllfa lle nas gofynnwyd i'r gyllideb ysgolion ddarganfod unrhyw arbedion dros y tair blynedd diwethaf.

Beth bynnag fydd y targed a osodir ar gyfer ysgolion, bydd angen sicrhau fod yna drefn gynhwysol ar gyfer gadael i'r gwasanaeth ei hun ddylanwadu ar sut y dylid cyflawni'r arbediad, ac *argymhellir fod hynny yn digwydd trwy'r Fforwm Cyllido Ysgolion.*

Wrth osod y targed, rhaid bod yn fyw i'r ffaith y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd cyllideb y sector Uwchradd yn gostwng tua £650,000 beth bynnag yn y ddwy flynedd nesaf oherwydd effeithiau demograffi tra bydd cyllideb y sector cynradd yn debygol o gynyddu tua £250,000. Ni wyddir eto beth yw'r tafluniadau demograffig ar gyfer y drydedd flwyddyn.

Mae'r sector Uwchradd hefyd yn wynebu gostyngiad yn eu cyllideb yn 2015/16 oherwydd y bydd y cymorth ychwanegol o £410,000 a roddwyd iddynt i ddygymod gyda cholled grantiau yn diflannu.

Fodd bynnag, mater i'r gwasanaeth fydd ystyried y ffactorau hynny wrth ddatblygu cynlluniau yn y gwahanol sectorau i ddygymod â'r targed.

Credir fod yna berygl y byddai gosod targed uwch na'r £4.3m yn amharu'n ormodol ar yr adnodd dysgu allasai yn ei dro effeithio ar gyraeddiadau addysgol plant ac felly argymhellwyd fod y Cabinet yn gosod targed o £4.3m fydd yn parhau i gynnig gwarchodaeth sylweddol i'r gyllideb ysgolion (o'i gymharu gyda gwasanaethau eraill y Cyngor) wrth gyfrannu rhywfaint tuag at wynebu'r her sydd o'n blaenau.

Nodwyd y ffaith fod gofyn i Weithgor gyflawni darn o waith ac yna adrodd yn ôl i'r Cabinet yn ymarfer da er mwyn gallu pwyso a mesur yr effaith cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellgyrhaeddol. Y gobaith yn ogystal fyddai i'r adroddiad a gyflwynir esgor ar drafodaeth ehangach ynghylch sicrhau ansawdd addysg a darpariaeth addysg yn gyffredinol o fewn Gwynedd.

Cyfansoddiad y Gweithgor

Awgrymir cyfansoddiad fel a ganlyn:

- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Fforwm Cyllido Ysgolion

- Trawstoriad o blith aelodau'r Fforwm Cyllido Ysgolion (Penaethiaid a Llywodraethwyr) gan sicrhau cynrychiolaeth o blith ysgolion arbennig, uwchradd a chynradd mawr, canolig a bach.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
- *Dylai'r Pennaeth Addysg Dros Dro, Swyddogion Cyllid a Swyddogion eraill fod yn cefnogi'r Gweithgor.*
- *Dylai Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fynychu fel sylwebyddion.*

Amserlen y Gweithgor

Rhaid cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Ionawr 2015. Bydd angen nifer o gyfarfodydd i gyflawni'r gwaith o fewn amserlen dynn, ac felly rhagwelir cynnal cyfarfodydd min nos (e.e. rhwng 5:00 pm a 7:00 pm).

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	3 Tachwedd 2014
TEITL	Grantiau Ysgolion Llywodraeth Cymru
PWRPAS	Amlygu oblygiadau ariannol datganiadau diweddar Llywodraeth Cymru
ARGYMHELLIAD	Codi ymwybyddiaeth o'r mater
AWDUR	Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cynghorydd Gareth Thomas

1. Grantiau Ysgolion 2014/15

1. Derbyniwyd llythyr gan Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Awst 2014 yn egluro ei fwriad i weithredu lleihad ôl-syllol yng ngrantiau ysgolion ar gyfer 2014/15 ac ysgrifennais at ysgolion ddechrau Medi 2014 ar y mater gan gynnwys copi o lythyr y Gweinidog.
2. Derbyniwyd llythyr pellach gan y Gweinidog dyddiedig 3 Hydref 2014 yn cadarnhau lleihad o £4.4m ar lefel Cymru wedi'i gyfrifo yn erbyn tri grant penodol sef Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19.
3. Gan fod dau allan o'r tri grant yn cael eu dosbarthu i'r pedwar Consortiwm Addysg ar draws Cymru, bydd angen i Awdurdodau Gogledd Cymru gytuno ar sail ddosbarthiad ac rwy'n amcangyfrif lleihad o £136,056 ar gyfer Cyngor Gwynedd.
4. Mae'r Gweinidog yn cynnig i Awdurdodau ystyried grantiau eraill er mwyn cyflawni'r dasg ac rwyf eisoes wedi ymateb yn cadarnhau bwriad Cyngor Gwynedd i ystyried defnyddio'r hyblygrwydd.
5. Rwyf angen cadarnhau manylion gweithredu erbyn 7fed Tachwedd 2014 ac ar hyn o bryd yng nghanol adolygiad o gynlluniau ac ymrwymadau cyfres o grantiau dan sylw.
6. Trwy ystyried opsiynau gweithredu, fy nod yw lleihau'r effaith cymaint â phosib ar ein dysgwyr.

Grantiau Ysgolion 2015/16

7. Rhyddhawyd yn ddiweddar Setliad Drafft 2015/16 Llywodraeth Leol oedd yn cynnwys ychydig o wybodaeth am grantiau ar lefel Cymru Gyfan.
8. Mae'r Gweinidog wedi penderfynu cyfuno 11 Grant Addysg/Ysgolion dan yr enw 'Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion'.
9. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i dderbyn ar lefel Cymru yn dangos bod y grantiau dan sylw yn lleihau o £156.7m yn 2014/15 i £141.0m yn 2015/16, sef lleihad £15.7m neu 9.5% (ac yn nhermau real o leiaf £17.3m neu 10.9%).
10. Gyda'r Gweinidog yn cyfeirio yn benodol at "*Rhaid parhau i fodloni deilliannau a disgwyliadau grantiau unigol, er enghraifft cynnal y cymarebau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.*" a gan bod Grant Cyfnod Sylfaen yn £97.9m o'r cyfanswm £156.7m yn 2014/15, gellid dehongli mai ar y grantiau eraill fydd y fwyell yn disgyn, cyfateb i doriad o dros 25%, gydag oblygiadau dinistriol ar nifer o gynlluniau Ysgolion a'r Adran Addysg.
11. Mae yna grantiau eraill ym maes Addysg/Ysgolion sydd tu allan i'r 11 y cyfeiriwyd atynt uchod e.e. Darpariaeth ôl 16 Mewn Ysgolion, ac mae'n debygol y bydd y rheini hefyd yn derbyn toriad ariannol.
12. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sydd ar sail ystadegau nifer disgyblion gyda hawl i ginio am ddim, yn codi o £918 yn 2014/15 i £1,050 yn 2015/16 gyda'r amodau caeth ar gyfer defnydd o'r grant yn parhau.

2. Casgliad

- 2.1 Bydd ysgolion angen cadw golwg barcud ar bob ffynhonnell ariannol sydd ar gael iddynt ac yn barod i adolygu cynlluniau i'r dyfodol yn syth pan mae rhagrybudd o doriad yn cyrraedd, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol bresennol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Weithredwyr – Awdurdodau Lleol yng Nghymru

3 Hydref 2014

Annwyl Cydweithwyr

Ar 14 Awst, ysgrifennodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at Arweinwyr Awdurdodau Lleol. Ynndo roedd yn nodi bod angen i Adrannau Llywodraeth Cymru sicrhau toriadau yn ystod y flwyddyn i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Rydym yn anelu at wneud arbedion o hyd at £4.4 miliwn yn 2014-15. Mae'r arbedion wedi eu gosod yn erbyn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol, wrth ohebu â Chyfarwyddwr Cyffredinol AdAS, wedi nodi eu pryderon ynghylch y lefel o arbedion. Ym mis Mehefin, cafwyd cyfarfod anffurfiol rhyngom ni â phrif Gyfarwyddwyr CCAC a CLILC i wrando ar eu pryderon. Yn y cyfarfod, daeth i'r amlwg bod ewyllys i fynd ati i roi'r toriadau hyn ar waith mewn ffordd bragmataidd a sicrhau ein bod yn dal i gyflawni'r gwelliannau yr ydym yn dymuno eu gweld mewn addysg yng Nghymru wrth reoli cyllidebau sy'n lleihau

Hefyd, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd â CLILC a'r pedwar Prif Weithredwr sydd wedi gofyn am hyblygrwydd ychwanegol mewn perthynas â nifer o grantiau i alluogi Awdurdodau a chonsortia i ddod o hyd i feysydd eraill lle gellir gwneud yr arbedion angenrheidiol, a gwneud yn iawn am y colledion a godir yn erbyn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a grantiau 14-19 i leihau'r effaith ar ysgolion a dysgwyr.

Rydym yn fodlon ystyried yr opsiwn hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cynigion i symleiddio'r ffordd rydym yn rhoi arian grant i ysgolion ar gyfer 2015-16. Rydym wedi nodi cyfres o grantiau i'w rhesymoli i un ffrwd gyllido a fydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Rydym yn fodlon dod ag elfennau o'r gwaith hwn ymlaen i eleni, gan roi hyblygrwydd ychwanegol i drosglwyddo arian o grant i grant er mwyn rhoi'r toriadau angenrheidiol ar waith mewn ffordd sy'n amharu cyn lleied â phosibl ar ysgolion a dysgwyr. Mae gofyn cael awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau gwario amgen. Rhaid parhau i fodloni deilliannau a disgwyliadau grantiau unigol, er enghraifft cynnal y cymarebau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Croesewir cynigion sy'n lleihau'r baich gweinyddol. Wrth gytuno i unrhyw drefniadau gwario amgen, byddwn yn canolbwyntio fwyaf ar leihau effeithiau'r arbedion ar ysgolion a dysgwyr.

Rhowch wybod i ni o fewn 7 diwrnod wedi i chi gael y llythyr hwn, p'un a ydych am dderbyn y cynnig uchod sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i chi mewn perthynas â'r arbedion. Bydd hyn yn galluogi rhyddhau telerau ac amodau'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19

Bydd rhaid i unrhyw Awdurdod sy'n dymuno derbyn y cynnig hwn gyflwyno cynnig amgen erbyn diwedd Hydref sy'n nodi'i fwriad o ran y ffordd orau i gyflwyno'r toriadau i leihau'r effaith ar ysgolion a dysgwyr. Rhaid cytuno ar y cynigion yn y consortia rhanbarthol perthnasol ar gyfer grantiau sydd i'w dosbarthu'n ranbarthol. Bydd cynigion yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir diwygiadau i delerau ac amodau presennol y grant lle bo angen.

Os nad yw Awdurdod yn dymuno derbyn y cynnig hwn, neu os nad oes modd cytuno ar y cynigion, byddwn yn lleihau'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19 yn ddiodyn.

Byddwn yn parhau i weithio drwy CLILC a'r pedwar Prif Weithredwr dros yr wythnosau nesaf.

Dyma'r gyfres o grantiau:

Grant Llwybrau Dysgu 14-19

Y Cyfnod Sylfaen

Grant Effeithiolrwydd Ysgolion

Grant y Gymraeg mewn Addysg

Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr

Ymsefydlu

Grant Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol

Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion Band 4 a 5 nad ydynt yn rhan o Raglen Her Ysgolion Cymru

Grant Rhaglenni Dysgu fel Teulu

Hefyd, mae'r grantiau'n cael eu cynnwys yn y cynnig ar gyfer 2015-16, ond sydd y tu allan y cwmpas hyblygrwydd ar gyfer 2014-15:

Cefnogaeth Profion Rhifedd a Llythrennedd – *ar gyfer costau aed iddynt gan ysgolion ym mis Mai*



Brett Pugh

Cyfarwyddwr,

Y Grŵp Safonau Ysgolion a

Gweithlu.



Jo-Anne Daniels

Cyfarwyddwr,

Y Grŵp Seilwaith, Cwricwlwm,

Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr.

¹ Nid yw'r Grant Rhaglenni Dysgu fel Teulu yn cael ei nodi fel rhan o'r cynigion rhesymoli ar gyfer 2015-16 ond mae modd ei ystyried fel rhan o'r gyfres o grantiau ar gyfer 2014-15.

Pennaeth Addysg (Dros Dro) Head of Education (Interim)

Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ owenowens@gwynedd.gov.uk

Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd

Annwyl Gyfaill

Par: Toriadau i grantiau 2014-15

Atodaf lythyrau oddi wrth Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, sy'n cyfeirio at y gofyn sydd arno i gwtogi ar wariant ei adran *yn ystod y flwyddyn hon (2014-15)*. Mae'n nodi ynddynt ei fod yn ceisio sicrhau gostyngiad cyffredinol o hyd at £5 miliwn o gyllidebau grantiau i ysgolion.

Ar hyn o bryd, dydy'r manylion ynglŷn â'r toriadau i'r gwahanol grantiau ysgolion ddim yn hysbys, ac felly nid ydym mewn sefyllfa i adnabod sut y bydd y toriadau yn effeithio'r Consortiwm, Gwynedd nag ysgolion unigol. Ond, mae'n anochel y bydd y toriadau yn effeithio ar ein hysgolion. Er gwaethaf ein hymrwymiad i geisio arbed ysgolion, fe all y toriadau yma effeithio rhywfaint ar yr arian sydd eisoes o fewn eich cyllidebau, gan gynnwys arian grant GEY.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd Awdurdod Addysg Gwynedd mewn trafodaethau gyda'r Consortiwm a Llywodraeth Cymru i geisio nodi'r ffordd orau o gyflawni'r gostyngiadau hyn yn ystod y flwyddyn.

Rhaid nodi mai camau Llywodraeth Cymru yw'r toriadau hyn ac nad ydynt unrhyw beth i wneud gyda'r Cyngor. Gallaf nodi nad oes bwriad gan y Cyngor i ofyn am ostyngiadau o fewn y flwyddyn i'ch cyllidebau craidd.

Pan fydd mwy o wybodaeth i law byddaf yn cysylltu ymhellach â chi.

Yn gywir

Owen Owens

Owen Owens
Pennaeth Addysg Dros Dro

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



Y Cynghorydd Alun Thomas OBE
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

CC
Holl Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol
Arweinydd CLILC
Prif Weithredwr CLILC

14 Awst 2014

Ysgrifennais atoch ar 22 Gorffennaf i'ch hysbysu bod gofyn i ni wneud rhai gostyngiadau yn ystod y flwyddyn yn fy mhortffolio i er mwyn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Fel y gwyddoch, mae Cymru'n wynebu setliad ariannol eithriadol o anodd gan Lywodraeth y DU ac mae'r arian sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus yn lleihau bob blwyddyn. Yn wir, fel y gwyddoch hefyd rwy'n siŵr, erbyn 2015-16 bydd cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru £1.7 biliwn yn llai nag yr oedd yn 2010-11. Mae'r gostyngiad hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wneud gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn, a oedd yn fwy heriol fyth yn dilyn canfyddiadau adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar gyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Yn ei Datganiad diweddar ar y Gyllideb Atodol ar 15 Gorffennaf, amlinellodd y Gweinidog Cyllid y gallai fod angen ail-flaenoriaethu'r cyllidebau ar gyfer eleni ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar draws Llywodraeth Cymru i fodloni goblygiadau adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield.

O ganlyniad, mae gofyn i nifer o adrannau, gan gynnwys fy adran i, wneud gostyngiadau yn ystod y flwyddyn a bydd y rhain yn effeithio ar nifer o feysydd gwariant yn fy mhortffolio i.

Nid oes opsiynau hawdd ar gyfer gwneud y toriadau hyn, ac er y bydd arbedion effeithlonrwydd yn gwneud iawn am rywffaint o'r toriadau, mae'n anochel y bydd rhai yn effeithio ar wasanaethau. Mae ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion ar 1% uwchlaw'r newidiadau i gyfanswm cyllideb Cymru yn parhau, ond mae cyfanswm y cyllid sydd wedi bod ar gael yng nghyllideb AdAS yn y blynyddoedd diweddar yn fwy na hyn. Felly, rwyf wedi gorfod ystyried y posibilrwydd o leihau rhai o'r grantiau i ysgolion fel rhan o'r broses ail-flaenoriaethu ac, fel y gwyddoch, rwy'n ceisio sicrhau gostyngiad cyffredinol o hyd at £5 miliwn o'r cyllidebau hyn.

Mae fy swyddogion eisoes wedi trafod â chi'r cynigion ar gyfer toriadau, ac rwyf wedi gofyn iddynt barhau i weithio gyda chi i nodi'r ffordd orau o gyflawni'r gostyngiadau hyn yn ystod y flwyddyn fel bod gennych yr hyblygrwydd i benderfynu ar y dull gweithredu cywir ar gyfer eich sefydliadau a'ch ysgolion chi. Fel rhan o'r trafodaethau hyn, rwyf wedi gofyn iddynt weithio â chi i greu system grant newydd symlach ar gyfer 2015-16 a fydd yn arwain at fwy o hyblygrwydd o ran cyllid ac, yn y pen draw, ganlyniadau gwell i'n dysgwyr. Mae'r angen i sicrhau arbedion yn ystod y flwyddyn yn golygu y gallai fod o fantais i chi ystyried y flwyddyn ariannol bresennol hefyd er mwyn sicrhau bod gennych gymaint o hyblygrwydd â phosibl.

Gwyddwn fod y gostyngiadau anochel hyn yn anodd i bawb, ac rwyf am eich sicrhau chi bod fy mlaenoriaethau i a Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn parhau heb eu newid. Dim ond drwy gydweithio y byddwn yn sicrhau'r gwelliannau rydym i gyd eu heisiau mewn addysg yng Nghymru wrth reoli cyllidebau sy'n lleihau. Hyderaf y gallaf ddibynnu ar eich cefnogaeth barhaus i gyflawni'r newidiadau hyn i'r ffordd rydym yn gweithio a sicrhau'r gorau i'n dysgwyr ar draws Cymru.

Yn gywir



Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

2014-15 Grant allocations (excluding in-year reductions)

	14-19 Learning Pathways	Foundation Phase Revenue Grant	School Effectiveness Grant (SEG)	Welsh in Education Grant	Minority Ethnic Achievement Grant (MEAG)	Education of Gypsy and Traveller Children	Induction	Lead and Emerging Practitioner Grant	Higher Level Teaching Assistants	Additional funding for Band 4 and 5 schools not part of SCC	Family Learning Programme Grant	Total
Budget	£10.241m	£97.9m	£28.129m	£5.63m	£10m	£1.1m	£0.400m	tbc	£0.182	£0.46m	£1.829m	
Isle of Anglesey		2,368,609			39,913	0	6,957			0	59,990	2,475,469
Gwynedd		3,940,570			98,243	16,577	11,822			20,000	85,230	4,172,442
Conwy		3,313,395			111,906	11,502	13,420			10,000	70,965	3,531,188
Denbighshire		3,123,618			112,785	13,000	12,754			0	67,673	3,329,830
Flintshire		4,949,746			128,032	71,319	23,061			10,000	79,380	5,261,539
Wrexham		4,406,241			315,302	42,629	16,170			20,000	80,476	4,880,818
GwE	2,724,749	22,102,179	6,320,497	1,487,967	806,181	155,027	84,184	<i>tbc</i>	41,130	60,000	443,714	34,225,627
Powys		4,218,047			178,930	27,926	20,542			70,000	82,480	4,597,925
Ceredigion		2,232,609			103,130	0	9,438			10,000	58,345	2,413,522
Pembrokeshire		4,021,018			104,577	98,968	15,288			20,000	72,428	4,332,279
Carmarthenshire		6,071,502			221,982	78,743	22,732			70,000	106,448	6,571,407
Swansea		7,239,550			1,465,732	61,383	29,008			30,000	113,215	8,938,889
Neath Port Talbot		4,386,201			140,757	59,108	18,524			0	90,900	4,695,490
ERW	2,879,502	28,168,927	7,994,020	1,869,590	2,215,108	326,128	115,533	<i>tbc</i>	42,690	200,000	523,816	44,335,314
Bridgend		4,438,616			129,994	27,190				20,000	83,768	4,699,568
Vale of Glamorgan		4,144,682			251,274	21,215				20,000	67,856	4,505,027
Rhondda Cynon Taff		7,891,386			149,944	25,824	115,861			40,000	138,300	8,361,315
Merthyr Tydfil		1,935,842			112,953	30,681				10,000	66,028	2,155,504
Cardiff		10,454,412			4,448,838	258,004				60,000	142,480	15,363,734
Central South	2,816,501	28,864,938	8,427,727	1,425,868	5,093,003	362,914	115,861	<i>tbc</i>	57,210	150,000	498,432	47,812,455
Caerphilly		2,224,354			73,204	0				20,000	101,300	2,418,858
Blaenau Gwent		2,926,071			54,321	44,372				0	68,770	3,093,534
Torfaen		2,656,391			118,112	53,490	83,412			0	60,723	2,972,129
Monmouthshire		4,891,780			64,914	6,732				20,000	46,090	5,029,516
Newport		6,065,360			1,575,155	151,336				10,000	86,155	7,888,006
EAS	1,820,247	18,763,956	5,386,757	846,574	1,885,706	255,930	83,412	<i>tbc</i>	41,090	50,000	363,038	29,496,711
Wales	10,241,000	97,900,000	28,129,000	5,629,999	9,999,998	1,100,000	398,990	<i>tbc</i>	182,120	460,000	1,829,000	155,870,107

Notes: Issued regionally to Central South Consortium and on LA basis in other regions. LA match funding is £8,589,155. Total gross grant is £36,718,155. Minimum delegation to schools (80%) LA match funding is £2,772,984. Total gross grant is £8,402,986. Estimates based on 2013-14 claims. Grant issued retrospectively according to demand. Issued regionally and on LA basis. *Figures to be confirmed* Grant offer issued 30 Sept 2014 for current academic year 2014-15 to four regional consortia. Equivalent to two terms' funding. Figures exclude Lead and Emerging Practitioner Grant figures, which are TBC.

Please note:

Where grants are administered regionally e.g. through consortia, regional totals are provided.

Because distribution of these grants is determined regionally, a breakdown by Local Authority will be available from consortia or lead Local Authorities.

2014-15 Grant allocations (including in-year reductions - DRAFT DISTRIBUTION FOR ILLUSTRATION PURPOSES ONLY)

School Effectiveness Grant (SEG)

Budget	25.529m
Isle of Anglesey	
Gwynedd	
Conwy	
Denbighshire	
Flintshire	
Wrexham	
GwE	5,736,285
Powys	
Ceredigion	
Pembrokeshire	
Carmarthenshire	
Swansea	
